



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

Cynllun Gwella Blynnyddol

Beth wnaethom yn 2020-21 a beth rydym yn cynllunio gwneud yn 2022-23

CODI YMWHYBYDDIAETH | LLEIHAU RISG

Cynnwys

Rhagair	4
Cyflwyniad.....	5
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	6
Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.....	7
Amdanom ni.....	8
Beth ydym wedi gwneud yn 2020-21 a sut wnaethom berfformio?	12
Cymariaethau 2020-2021 â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill	14
Roedd gennym wyth o themâu strategol a nifer o amcanion yn 2020-2021.....	16
Cyfrifeg.....	35
Archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2019-2020	36
Archwiliadau mewnol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2020-21	37
Archwiliad ac Adolygiad o Gyfranogiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Archwilio Cymru	38
Beth ydyn ni'n cynllunio i wneud yn 2022-2023.....	39
Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2022-2023	40
Ein Themâu Strategol.....	43
Yr Iaith Gymraeg ac Lleisiwch eich barn	53

Rhagair



Huw Jakeway QFSM

Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



Cyngorydd Tudor Davies MBE

Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub
De Cymru

Helo, a chroeso i'n Cynllun Gwella Blynyddol diweddaraf. Mae'r cynllun blynyddol yn edrych nôl ar ein llwyddiannau a'n cyraeddiadau o'r flwyddyn ddiwethaf, ond hefyd mae'n amlinellu ein cynlluniau wrth gyflawni ein cenhadaeth o gadw De Cymru'n ddiogel wrth leihau risg.

Cafodd amcanion a blaenoriaethau'r Gwasanaeth eu datblygu mewn ymgynghoriad â'n cymunedau, ein staff a'n cyfranddalwyr cysylltiedig. Gyda hyn, mae'r adborth a gasglwyd wedi amlinellu ein wyth thema strategol, fydd yn rhoi ffocws i ganiatáu'r Gwasanaeth i barhau i gefnogi ein cymunedau pan fo'r angen fwyaf.

Yn ystod cyfnodau heriol pandemig Covid-19, fe wnaeth ymroddiad a phroffesiynoldeb ein staff sicrhau y gwnaethom barhau i wneud yr hyn rydym yn ei wneud orau – lleihau risg a chadw'n cymunedau'n ddiogel. Roedd ymateb ein staff yn ystod Covid-19 yn eithriadol ac rydym yn hynod falch o'u cyflawniadau. Mae ein pobl wedi bod yn arloesol wrth sefydlu modelau Gwasanaethu newydd ac wedi addasu i newid a ffyrdd newydd o weithio. Drwy law ein gwasanaethau addysgu, atal a diogelu, er gwaethaf heriau lawer, gyda'n gilydd rydym wedi esblygu a gorchfygu rhwystrau ac rydym yn dal i wella ar hyd y pandemig.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, rhaid i ni ystyried sut rydym yn parhau i addasu a chofleidio newid, wrth ddarparu ein gwasanaethau'n effeithlon ac effeithiol. Mae'r Gwasanaeth wedi elwa o nifer o'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y pandemig, gan gynnwys digideiddio ac anwesu technoleg, adeiladu partneriaethau gwell a mwy eang eu hystod, ffocws ehangach ar lesiant ac ymgysylltu â staff, gwerthfawrogi ein pobl a blaenoriaethu eu hanghenion hyfforddi yn ogystal â diogelu ein hamgylchedd a llawer mwy.

Mae eich safbwyntiau a'ch profiadau wrth i ni adfer wedi'r pandemig yn hanfodol wrth lunio ffordd newydd ymlaen i ni fel Gwasanaeth. Ar ddiwedd y ddogfen hon, rydym yn gobeithio y byddwch yn dweud wrthym beth rydych yn meddwl am ein hamcanion drwy gwblhau'r holiadur neu dim ond wrth gysylltu â ni.

Cyflwyniad

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yw un o Wasanaethau Tân ac Achub mwyaf y DU, yn cwmpasu 10 Awdurdod Unedol a phoblogaeth o 1.5 miliwn. Rydym yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr a gyfansoddir o gymunedau gwledig, arfordirol a threfol.

Mae gennym sawl fframwaith cyfreithiol sy'n ein darparu â rheolau a chyfarwyddwyd ar ba wasanaethau y mae'n rhaid i ni gyflenwi. Mae'r fframweithiau cyfreithiol hyn yn cynnwys Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLI CD), Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2016, Deddf Cydraddoldeb Sengl 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) yn gofyn i ni osod a chyhoeddi amcanion gwella fel "awdurdod gwella Cymreig" dynodedig. Byddwn yn dangos lle dangosodd ein cynlluniau welliant ar draws y saith agwedd, sef:

- effeithiolrwydd strategol
- ansawdd gwasanaethau
- argaeledd gwasanaethau
- tegwch
- cynaliadwyedd
- effeithlonrwydd
- arloesedd

Mae DLI CD yn cynnwys saith nod ac amcan o dan ei "egwyddor datblygu cynaliadwy" i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau'r dyfodol pobl yng Nghymru. Mae GTADC, fel corff cyhoeddus, yn cael ei gynnwys o dan y Ddeddf a rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion "llesiant" a gynlluniwyd i eithafu ein cyfraniad i gyflawni nodau lles y Ddeddf a chymryd pob cam rhesymol i gwrdd â'r amcanion hynny. Bob blwyddyn, byddwn yn cyhoeddi datganiad ac adroddiad blynyddol ar gynnydd ac unrhyw ymateb i argymhellion a roddwyd i ni gan Gomisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru.

Mae gennym ddyletswydd i gadw pobl, cymunedau, busnesau ag amgylchedd De Cymru'n ddiogel rhag tanau a pheryglon eraill. Rydym yn gwneud hyn mor effeithiol ac effeithlon â phosib wrth anelu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Rydym yn datblygu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion uniongyrchol ein cymunedau a'r Gwasanaeth wrth ddyrchafu cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Cymru
gydnerth



Cymru o
gymunedau
cydlynus



Cymru â
diwylliant
bywiog
lle mae'r
Gymraeg yn
ffynnu



Cymru
lewyrchus



Cymru
iachach



Cymru fwy
cyfartal



Cymru sy'n
gyfrifol ar
lefel fyd-eang

Egwyddor datblygiad cynaliadwy DLI CD yw: **“Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy’n chwilio i sicrhau bydd gofynion y presennol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy”**

Mae DLI CD hefyd yn adnabod y pum ffordd ganlynol o weithio sy'n rhaid i ni ystyried a gweithredu yn unol â hyn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

- Pwysoli anghenion byrdymor ag anghenion **hirdymor**
- Rhoi adnoddau tuag at **atal** problemau
- Defnyddio dull o **gyfannu**, yn gwrthbwysio anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- **Cydweithredu** ag eraill i helpu cwrdd ag amcanion llesiant
- **Cynnwys** eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal



Hirdymor



Atal



Cyfannu



Cydweithredu



Cynnwys

Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Rydym yn parhau i weithio gyda'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn ein hardal. Mae gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol ac adrodd ar ei gynnydd yn flynyddol. Rydym yn gweithio gyda'n naw BGC, gan fod dau awdurdod lleol yn ein hardal, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful wedi cyfuno i ffurfio un BGC - Cwm Taf.

Mae ein gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn arddangos ein hymrwymiad at egwyddor datblygu cynaliadwy DLI CD.

Rydym wedi ymroi i gwrdd â'n hymrwymiaidau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar bob adeg, byddwn yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut allwn fod yn aelodau effeithiol o'r naw BGC, yn cynnwys eraill wrth atal digwyddiadau, cydweithredu a chymryd agwedd gyfannol at ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac iach yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Pan wnaethom ddatblygu ein themâu a'n hamcanion strategol, fe wnaethom ystyried saith nod y Ddeddf a sicrhau ein bod yn cymhwyso a chyfannu'r pum ffordd o weithio; meddwl, atal, cyfannu, cydweithredu ac ymrwymiad hirdymor.

Fe wnaethom adnabod nifer o gamau fydd yn cyfrannu at gyflawni'r saith nod wrth ddiffinio ein saith thema ac amcan strategol ar gyfer y flwyddyn 2022/23 a thu hwnt.

Byddwn yn monitro a mesur ein cynnydd tuag at yr amcanion hyn fel rhan o'n prosesau cyfredol.

Cliciwch ar yr eicon perthnasol ar gyfer cynllun ac amcanion llesiant BGC eich ardal.



Amdanom ni

Mae ein rhanbarth yn adnabyddus am ei gymysgwch o dir trefol a gwledig, tir diwydiannol ac amaethyddol, ac amrywiaeth ei boblogaeth. Mae hyn yn rhoi heriau amrywiol i ni'n ddyddiol wrth i ni wasanaethu i gadw cymunedau De Cymru'n ddiogel.

ARDAL A PHOBLOGAETH

- 10 Awdurdod Unedol yn cwmpasu 2,800km²
- Poblogaeth o dros 1.55 miliwn, gan gynnwys dwy ddinas fwyaf Cymru
- Dros 160 cilomedr o arfordir, rhai o lynoedd a chronfeydd dŵr fwyaf Cymru ac 153,000 o hectarau o dir amaethyddol

CARTREFI

- Dros 670,000 o aelwydydd yn ein hardal, gyda maint aelwyd cyfartalog o 2.3 o bobl
- Mae 32% o dai yn feddiant sengl, gyda'r ffigwr hwnnw'n codi mewn blynyddoedd diweddar

ADDYSG

- Mae 614 o ysgolion, yn dysgu dros 220,000 o ddisgyblion
- Mae 3 prifysgol, yn dysgu dros 56,000 o fyfyrwyr

TRAFNIDIAETH

- Dros 9,100 cilomedr o ffyrdd, ac o blith y rhain, traffordd yr M4 yw 96 cilomedr ohonynt
- Dros 17 miliwn o deithiau trên bob blwyddyn
- Mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn gwasanaethu 32,000 o hediadau bob blwyddyn
- 3 prif borthladd diwydiannol/cargo yng Nghaerdydd, Y Barri a Chasnewydd

DEMOGRAFFEG

- Mae 126 o'n Hardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cael eu nodi o fewn 10% o ardaloedd fwyaf difreintiedig Cymru
- Rydym yn gwasanaethu poblogaeth sy'n heneiddio. Ein grŵp oedran fwyaf yw 55-64 mlwydd oed. Mae ein poblogaeth yn dod yn fwy amrywiol o ran ethnigrwydd. Daw 8% o gymunedau BAME. Mae dros 100 o ieithoedd yn cael eu siarad neu'u llofnodi yn De Cymru

IECHYD

- Mae 3 bwrdd iechyd yn cwmpasu 30 o ysbytai. Mae codiadau mewn materion iechyd andwyol yn effeithio ein poblogaeth sy'n heneiddio yn anghyfartal
- Bron i hanner ein poblogaeth faterion iechyd hirdymor. Mae hefyd twf mewn materion iechyd meddwl ymysg oedolion iau

BUSNES

- Mae economi ein hardal yn ymestyn o amaethyddiaeth, twristiaeth, diwydiant trwm a chemegolion i sector gwasanaethu sy'n tyfu
- Mae dros 35,000 o safleoedd busnes
- Mae dros 40 miliwn o ymweliadau gan ymwelwyr i De Cymru bob blwyddyn


HINSAWDD

- Rydym yn disgwyl gweld hafau poethach a gaeafau gwlypach a mwynach, gyda mwy o gyfnodau o law dwys a digwyddiadau stormus, cynnydd yn lefel y môr gyda mwy o ymchwyddiadau storm a mwy o lifogydd arfordirol a mewndirol
- Mae dros 33,000 o eiddo mewn perygl rhag llifogydd, mwy na 1,000 ohonynt yn risg uchel

GORSAFOEDD A STAFF

- 47 o Orsafoedd; (10 Llawn Amser, 9 Llawn Amser a Rhan Amser, 28 Rhan Amser)
- 804 o Ddiffoddwyr Tân Llawn Amser
- 627 o Ddiffoddwyr Tân Rhan Amser
- 43 o Staff Ystafell Reoli

Yn 2020-2021, fe wnaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru:



Rydym yn darparu:

ataliad, diogelwch ac ymateb

24 7 365

awr y dydd diwrnod yr wythnos diwrnod y flwyddyn

92^C

y pen bob wythnos

Beth ydym wedi gwneud yn 2020-21 a sut wnaethom berfformio?

Fel Gwasanaeth, mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso ein perfformiad i sicrhau ein bod yn perfformio mor effeithiol ag sy'n bosib. Yn rhannol, rydym yn gwneud hyn wrth osod targedau blynyddol i ni ein hunain yn erbyn Dangosyddion Strategol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru **and by** yn cymharu ein perfformiad yn erbyn y Gwasanaethau Tân ac Achub Cymreig eraill. Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth ar y cynnydd rydym yn gwneud yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol hyn.



Roedd nifer y tanau ar draws ein hardal yn debyg i 2019-2020. Roedd llai o Danau Mewn Anheddau ond mwy o Danau Gwastraff. Roedd mentrau gostwng tân yn help i ostwng nifer y Tanau Glaswellt bwriadol.



Roedd gostyngiad sylweddol mewn Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd eleni, a byddwn yn parhau i fod yn fwy tebyg i fynychu digwyddiadau risg is. Mae'r ddwy flynedd ariannol ddiwethaf wedi gweld y nifer lleiaf o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd ers dechreuodd y broses gofnodi gyfredol yn 2009-2010.



Fe wnaeth nifer y Galwadau Ffug Maleisus ostwng yn 2020-2021. Mae ein presenoldeb mewn Galwadau Ffug mewn adeiladau a Galwadau Ffug a wnaed o fwriad da wedi cynyddu eleni.




Mae nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig Arall* a fynychwyd wedi gostwng o ganlyniad uniongyrchol i lai o ddigwyddiadau Llifogydd. Gofynnwyd i'n criwiau i helpu asiantaethau eraill yn fwy aml yn 2020-2021. Bu hefyd twf mewn digwyddiadau sy'n ymwneud â Deunyddiau Peryglus a digwyddiadau sy'n ymwneud ag Ymgeision o Hunanladdiad eleni.




Gwelodd 2020-2021 y nifer isaf o anafiadau o achos tân ers cychwyn y broses gofnodi gyfredol yn 2009-2010. Roedd llai o anafiadau mewn adeiladau preswyl a di-breswyl, yn ogystal â lleoliadau allanol eraill. Mae nifer y marwolaethau yn debyg i'r llynedd, gyda'r mwyafrif yn deillio o ddigwyddiadau tân damweiniol.


Allwedd




Cyfanswm nifer y Tanau a fynychwyd




Cyfanswm nifer y Galwadau Fflug a fynychwyd




Cyfanswm nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd




Cyfanswm nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd




% y Tanau Mewn Anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant



Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Danau Damweiniol




Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Holl Danau




Cymariaethau 2020-2021 â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill

	De Cymru	Canolbarth a Gorllewin Cymru	Gogledd Cymru
Cyfanswm nifer y tanau a fynychwyd	5,483	3,079	1,770
Cyfanswm nifer y galwadau ffug a fynychwyd	8,324	4,798	2,315
Cyfanswm nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd a fynychwyd	643	530	105
Cyfanswm nifer y galwadau gwasanaeth arbennig eraill a fynychwyd	2,274	2,383	509
Cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o holl danau	49	34	50
Cyfanswm nifer y marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol	42	32	47
Canran y tanau mewn anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant	82.2%	79.0%	87.6%


Allwedd




Cyfanswm nifer y Tanau a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Galwadau Fflug a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Galwadau Gwasanaeth Arbennig Eraill a fynychwyd fesul 10,000 o'r boblogaeth




Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Holl Danau fesul 10,000 o'r boblogaeth



Cyfanswm nifer y Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o Danau Damweiniol fesul 10,000 o'r boblogaeth



% y Tanau Mewn Anheddau a gynhwyswyd yn yr ystafell lle y tarddasant



Roedd gennym wyth o themâu strategol a nifer o amcanion yn 2020-2021

Eich Cadw'n Ddiogel

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru
iachach



Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel fyd-eang



Canolbwyntio
ar waith atal
er mwyn
lleihau'r
angen i chi
ein ffonio.

Byddwn yn eich cadw'n ddiogel wrth:

- Ostwng effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Leihau nifer y tanau yn y cartref a deall eu hachosion a'u hymddygiadau
- Ostwng nifer y Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTff)
- Leihau nifer y tanau bwriadol
- Wella diogelwch yn y dŵr ac o'i amgylch
- Wella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Parhau i herio galwadau brys a dderbyniwyd wedi i larwm tân awtomatig ysgogi i geisio penderfynu p'un ai oes tân neu beidio
- Parhau i weithio gyda phartneriaid mewn lechyd ac Addysg i ostwng galwadau ffug
- Parhau i gyflwyno archwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref estynedig
- Ymchwilio mentrau newydd ar gyfer addysgu Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTff) a chynyddu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i ddarparu rhybuddion tywydd ac ardaloedd i'w hosgoi yn ystod ac wedi argyfyngau
- Darparu rhaglenni diogelwch yn y dŵr i leihau nifer yr achosion o foddi a gwella addysg diogelwch mewn dŵr
- Casglu gwybodaeth ar safleoedd risg uchel, e.e. ysbytai a ffatrioedd, drwy law ein proses Gwybodaeth Risg Safle Penodol (GRSP) i wneud cynlluniau i gadw pobl sydd mewn adeiladau fflatiau uchel yn ddiogel a sicrhau diogelwch diffoddwyr tân

Beth ydym wedi gwneud:

- Fe wnaeth ein Hadrannau Cyd-reoli Tân (CRT) gydweithio â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent i herio galwadau a oedd yn deillio o Larymau Tân Awtomatig (LTA) a galwadau niwsans. Fel Gwasanaeth, rydym wedi'n hymrwymyo'n llwyr â mentrau gostwng LTA gyda'n partneriaid o fewn lechyd ac Addysg
- Cyflwynwyd yr Archwiliad Diogelwch rhag Tân yn y Cartref Estynedig mewn wyth o ardaloedd Awdurdod Unedol (AU). Byddwn yn targedu'r ddau AU sy'n weddill yn ystod 2021-22
- Yn ystod y pandemig, fe wnaethom newid ein harchwiliadau diogelwch rhag tân yn y cartref i gael eu cyflawni dros y ffôn. Rhwng Mawrth yr 16eg a Mehefin y 25ain 2020 fe wnaethom y canlynol:

cynhaliwyd

1,000

o Archwiliadau Diogelwch rhag
Tân yn y Cartref Estynedig

Bron i

500

o ddanfoniadau stepen drws ar draws
De Cymru

Cynhaliwyd dros

200

o ymweliadau
critigol

- Gweithio gyda Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru, Y Cyngor Penaethiaid Tân Cenedlaethol (CPTC), Heddlu De Cymru, Heddlu Gwent a Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd Awdurdodau Lleol i adnabod tueddiadau a lleihau achosion o Wrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd (GTFf) wrth addysgu, ymgysylltu a gorfodi
- Fe wnaethom ddadansoddi data diogelwch ar y ffyrdd i sicrhau fod ein hymyriadau wedi'u hanelu at y grwpiau targed cywir a darparu negeseuon rhyngweithio cymdeithasol rheolaidd i addysgu ac ymgysylltu
- Fe wnaethom weithio gyda Diogelwch yn y Dŵr Cymru ar ymgyrchoedd cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch yn y dŵr yn unol â strategaeth y CPTC
- Mae rhaglenni diogelwch yn y dŵr yn cael eu datblygu ac rydym yn gweithio gyda'n partneriaid yn Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Nofio Cymru i roi cyngor diogelwch i'r cyhoedd
- Fe wnaethom sefydlu Gweithgor Safleoedd Tŵr i weithredu ar argymhellion Cam 1 o ymchwiliad Tŵr Grenfell
- Mae ein Prif Swyddog Tân wedi briffio partneriaid perthnasol ynghylch y materion parhaol â stoc adeiladu Tyrrau Uchel ar draws De Cymru yng ngoleuni tân Tŵr Grenfell, gan egluro'r risg mae'r adeiladau hyn yn peri a sut rydym yn gweithio gyda phartneriaid, perchnogion adeiladau a chontractwyr yn ddiwahân i ddatrys y materion

Ymateb i'ch Argyfwng

Yn cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru gydnerth



Cymru iachach



Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch.

Byddwn yn ymateb i'ch argyfwng wrth:

- Ymateb yn effeithiol pan fyddwch wir ein hangen
- Wneud popeth y gallwn i sicrhau bydd ein diffoddwyr tân System Ddyletswydd Ar Alwad (SDdAA) ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, ein staff rheoli tân brys a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol a risgiau'r dyfodol yn ein cymunedau


Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Datblygu technoleg o'n staff ystafell Cyd-reoli Tân (CRT) i adnabod lleoliad y galwr a danfon y peiriant tân agosaf atynt
- Parhau i ddefnyddio ein cynllunydd recriwtio i dargedu'r nifer o staff sydd angen fesul blaenoriaeth Gorsaf a datblygu system cynllunio a monitro i'n gweithgareddau recriwtio Ar Alwad
- Adnabod tueddiadau'r dyfodol sy'n gofyn am raglenni hyfforddi newydd a chynnal cymhwysra ein staff


Beth ydym wedi gwneud:

- Mae'r defnydd o dechnolegau newydd i helpu adnabod lleoliad y galwr wedi'i oedi o ganlyniad i gyfyngiadau COVID-19. Ar hyn o bryd, rydym yn defnyddio'r Gwasanaeth Gwybodaeth Estynedig ar gyfer Galwadau Brys (EISEC) sy'n trosglwyddo rhif ffôn a lleoliad galwyr 999 yn electronig a hefyd 'Pa3gair' drwy law gwefan ar-lein
- Mae'r CPT yn parhau i ddefnyddio criwio ar sail angen, h.y. cydweddu adnoddau i lefelau risg amrywiol, i sicrhau bydd hydwythedd mewn lle i gefnogi cyfnodau o weithgarwch cynyddol a cholli staff/neu golli staff

- Rydym yn bwriadu recriwtio 130 o bobl ar y System Ddyletswydd Ar Alwad bob blwyddyn wrth adeiladu ar y gwaith sefydlu. Eleni, fe wnaethom recriwtio 86 o ddiffoddwyr tân ar alwad newydd - 66% o'n targed. Cafodd hyn ei gyflawni er gwaetha'r ffaith nad oedd hawl cynnal gweithgareddau recriwtio wyneb yn wyneb na diwrnodau agored o ganlyniad i Covid-19
- Rydym yn monitro'r rhesymau o fewn cyfweiliadau ymadael â'r SDdAA ac mae'r rhesymau'n parhau i fod yn amrywiol. Mae cyrsiau hyfforddi i ddiffoddwyr tân cychwynnol y SDdAA wedi'i sefydlu i gael eu cynnal o leoliad Gorsaf, gydag ymrwymiad bach iawn gan ein Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd (CHDPC)
- Mae teclyn argaeledd SDdAA i'r dyfodol wedi'i ddatblygu ar ein System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB)
- Rydym wedi bod yn edrych tua'r dyfodol wrth adolygu blaenamcanion data hirdymor ar boblogaeth, tai, iechyd, economi, hinsawdd a seilwaith De Cymru, er mwyn galluogi'r sefydliad i ystyried yr heriau tebygol sy'n wynebu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu



Perfformiad GTADC 2020-21



Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol GTADC 2019

Gweithio â'n Partneriaid

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru sy'n gyfrifol ar
lefel fyd-eang



Cymru
lewyrchus



Gan weithio
gyda'r naw
BGC o fewn
De Cymru a
phartneriaid
eraill i
ddarparu
gwasanaeth
tân ac achub
sy'n cwrdd â'ch
anghenion.

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid wrth:

- Weithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau
- Weithio â'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle maent eu hangen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Gweithio ar drefniadau cyd-brynu ar gyfer offer a gwasanaethau gyda'n partneriaid BGC
- Gweithio â'r Cyd-Grŵp Gwasanaethau Brys (CGGB) i ddeall y gofyn ar draws y gwasanaethau brys
- Gweithio gyda'r pedwar ardal Fforwm Hydwythedd Cymru i sefydlu mannau sy'n ddigon mawr i letya cefnogaeth rheoli a logisteg i bob asiantaeth sydd eu hangen ar gyfer digwyddiad mawr ar draws Cymru

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- **Cyd-brynu:** Mae gennym drefniant prynu GTA Cymru Gyfan ar gyfer seicolegydd galwedigaethol, Offer Gwarchod Personol (OGP) strwythurol, gwisg i Gadetiaid Tân, camerâu delweddu thermol, gwasanaethau, hyfforddiant a chyfarpar arall
- **Cefnogi Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC):** Fe wnaeth 260 o'n staff wirfoddoli i hyfforddi i yrru ambiwlansys a chefnogi'u cymunedau a'n cydweithwyr yn YGAC yn ystod y pandemig. Fe wnaeth y staff gwblhau cwrs a hwyluswyd gan YGAC a derbyn eu brechiadau yn erbyn Hepatitis B ac mae 33 aelod o staff ledled ein Gwasanaeth wedi bod yn cefnogi ein cymunedau ac YGAC yn weithredol fel rhan o'r ymateb i Covid-19

- **Canolfannau Brechu:** Fe wnaeth 100 o staff gwirfoddoli i gefnogi canolfannau brechu cymunedol ar hyd Cwm Taf ac fe wnaeth rhai aelodau staff yrru aelodau o'n cymuned i'w hapwyntiadau brechu
- **Partneriaethau Newydd:** Rydym wedi datblygu partneriaethau gyda Gwasanaeth Ynni Cymru, Cynnal Cymru a'r Ganolfan ar gyfer Newid Hinsawdd a Thrawsnewid Cymdeithasol (HThC) i godi ymwybyddiaeth a datblygu cynllun ymhellach i gefnogi ein Cynllun Lleihau Carbon
- **Ymarferiad Aml-asiantaeth yn Y Barri:** Yn Rhagfyr, digwyddodd ymarferiad dŵr aml-asiantaeth yn Nociau'r Barri. Roedd yr ymarferiad yn cynnwys peiriannau tân o'r Barri, Llanilltud Fawr, Caerffili, Canol Caerdydd a Phenarth. Roedd partneriaid yn cynnwys Tîm Ymateb mewn Ardaloedd Peryglus Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (TYAP), Heddlu De Cymru a Gwylwyr y Glannau EM. Fe wnaeth amryw o gleifion, yn fyw neu'n fodel, ddarparu prawf realistig o'n galluogrwydd achub o ddŵr
- **Ysbyty Calon y Ddraig – the Dragon's Heart Hospital.** Fe wnaethom weithio mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru, Llywodraeth Cymru, Undeb Rygbi Cymru, Gleision Caerdydd ac amrediad o bartneriaid, cynllunwyr a chontractwyr eraill i baratoi Ysbyty Calon y Ddraig. Fe wnaethom gefnogi datblygu ac adeiladu'r cyfleuster newydd a hynny'n ddiogel rhag tân. Wrth ddatblygu ac arfogi gweithlu gwasanaeth cyhoeddus y ddinas yn briodol i gwrdd ag anghenion a gofynion mewn ymateb i Covid-19



Ysbyty Calon y Ddraig
(Ffynhonnell Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro)

Ymgysylltu a Chyfathrebu

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu



Cymru fwy
cyfartal



Sicrhau
bod ein holl
gymunedau
a staff yn cael
eu cynnwys
wrth ein helpu
i ddarparu
gwasanaeth
rhagorol.

Byddwn yn Ymgysylltu a Chyfathrebu wrth:

- Gyflawni argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Gynnwys ein cymunedau a sicrhau eu bod yn cael llais yn yr hyn rydyn ni'n gwneud
- Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth ddarparu addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Darparu yn erbyn camau sy'n deillio o adroddiad BmP Tachwedd 2019 a pharatoi am wiriad iechyd llawn yn Hydref 2020

Beth ydym wedi gwneud:

- **Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP)** - Fe wnaethom gadw ein hachrediad BmP a hefyd ennill gwobr newid a oedd yn canolbwyntio ar les ein staff. Fe wnaethom dderbyn Gwobr Aur y Bobl a Gwobr Llesiant Arian a oedd yn canmol ein diwylliant cefnogol, ein hangerdd i wella a datblygu, ein ffocws ar les a'n hymroddiad tuag at ddiogelu cymunedau De Cymru. Fe wnaeth Gwobr y Bobl danlinellu'n benodol y cynnydd sylweddol rydym wedi'i wneud yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, gyda ffocws ar bobl, yr amgylchedd, galluogrwydd i ymateb i ddigwyddiadau a'r disgwyliadau ymestynnol ar y Gwasanaeth. Fe wnaeth Archwilio Cymru ymgymryd ag ymchwiliad i adolygu dull a rheolaeth y Gwasanaeth o gynnwys cyfranddalwyr mewn penderfyniadau

INVESTORS IN PEOPLE™

We invest in people Gold

Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INVESTORS IN PEOPLE™

We invest in wellbeing Silver

Rydym yn buddsoddi mewn llesiant Arian

- Yn ystod pandemig Covid-19, gyda'r nifer cynyddol o fanciau bwyd yn cael eu cyrchu, roedd cyfle i ymgysylltu â'r unigolion mwyaf agored i niwed o fewn ein cymunedau. Fe wnaeth yr Adran Diogelwch yn y Cartref gysylltu â phob dosbarthydd banc bwyd lleol o fewn ardal y Gwasanaeth, a thrwy gymorth cydberthnasau cryf, roedd modd i ni drefnu bod gorsafoedd tân lleol yn gallu dosbarthu deunydd addysgiadol diogelwch yn y cartref ynghyd â chwdyn siopa cotwm ailddefnyddiadwy a fyddai'n cael ei ddosbarthu i bob banc bwyd o fewn ardal ein Gwasanaeth
- Bu hwn yn llwyddiant mawr, gan sicrhau fod gan y rhai mwyaf agored i niwed o fewn ein cymunedau fynediad at gyflenwadau sydd angen arnynt, ond hefyd byddant wedi'u haddysgu a'u harwyddbostio mewn perthynas â diogelwch o fewn y cartref



Personél GTADC yn helpu mewn dosbarthydd banc bwyd lleol

Diogelu ein Hamgylchedd

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru sy'n gyfrifol
ar lefel byd-eang



Cymru
iachach



Cymru
gydnerth



Cymru o gymunedau
cydlynus



Cynnal ein
gweithgareddau
mewn modd fydd
yn helpu i gynnal
y ddaear ar gyfer
genhedloedd y
dyfodol.

Byddwn yn amddiffyn ein hamgylchedd wrth:

- Ostwng y defnydd o ddeunyddiau defnydd sengl
- Archwilio'r defnydd o gerbydau trydanol
- Ostwng ein defnydd o ynni a'n hól troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio'r amgylchedd

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Adolygu'r defnydd o ddeunyddiau defnydd sengl ar leoliad argyfyngau ac ar hyd y Gwasanaeth
- Adolygu ein polisi prynu ar gyfer hyrwyddo a marchnata eitemau yn unol â'n hymrwymiad amgylcheddol
- Prynu cerbydau trydanol a gosod seilwaith gwefru i gerbydau trydan
- Archwilio cyfleoedd i ostwng ein hól troed carbon wrth annog rhannu cerbydau a'r defnydd o dechnoleg i gyrchu cyfarfodydd yn rhithiol
- Lleihau ein defnydd o ddefnyddiau traul gan gynnwys tanwydd, papur, inc, cetrysau ac ati yn ein gweithgareddau dyddiol

Beth ydym wedi gwneud:

- Rydym wedi dyrannu cyllid i'w ddefnyddio ar brosiectau lleihau carbon
- Rhoddwyd poteli dŵr alwminiwm ail-lenwadwy i bob person a gosodwyd peiriannau dosbarthu dŵr oer ym mhob un o'n gorsafoddd
- Mae pecynnau tendro newydd am gynnrych a gwasanaethau yn dechrau cael eu defnyddio i gynnwys ystyriaethau caffael cynaliadwy

- Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno banc o bwyntiau gwefru cerbydau trydan yn y Pencadlys a phrynwyd nifer o gerbydau nwyddau ysgafn trydanol. Mae amryw o orsafoedd wedi'u hadnabod fel rhai sydd â'r potensial i osod gwefru trydanol pellach ac mae astudiaeth dichonolrwydd yn cymryd lle, gyda golwg ar gyflwyno hyn i bum gorsaf beilot
- Fe wnaethom gynyddu ein defnydd o fideo gynadledda ar gyfer cyfarfodydd, gydag argaeledd y dechnoleg a'r seilwaith i wneud hyn yn datblygu ar gyflymder o ganlyniad i bandemig Covid-19. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r cyfleusterau hyn i leihau unrhyw deithio nad sy'n hanfodol
- Mae neges i leihau'r defnydd o bapur yn cael ei gyfathrebu ar draws y Gwasanaeth
- Rydym wedi cynnal ymgysylltiadau a chyfathrebiadau ledled y Gwasanaeth i godi ymwybyddiaeth ac annog syniadau i leihau carbon. Dyfarnwyd 26 o dystysgrifau Llythrennedd Carbon i staff ar ôl iddynt gwblhau cwrs Llythrennedd Carbon yn llwyddiannus a hwyluswyd gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a'i gyflenwi gan Brifysgol Fetropolitan Manceinion
- Rydym yn gwella cofnodi, monitro ac adrodd pob effaith carbon ar draws y Gwasanaeth ac mae ein dadansoddwyr data yn gweithio i "gasglu ynghyd" data gan orsafoedd i gyfrifo'u defnydd o bob math o ddeunydd traul, gan gynnwys dŵr
- Ymgwymerwyd ag astudiaeth dichonolrwydd cychwynnol i leihau ein gwastraff dŵr yn y Pencadlys wrth ail ddefnyddio dŵr ar gyfer ein cyfleuster golchi cerbydau fflyd
- Mae'r gwaith yn parhau i gorffori cyfleoedd datblygu mwy gwyrdd a chynaliadwy i'n prosesau datblygu eiddo
- Mae datrysiadau teithio gweithredol yn cael eu hyrwyddo ar draws y sefydliad; rydym yn eistedd ar bedwar fforwm teithio gweithredol ac wedi llofnodi siarteri teithio yng Nghaerdydd ac yng Ngwent



PST Huw Jakeway QFSM a
Tracey Cooper, PW Iechyd Cyhoeddus Cymru
(Ffynhonnell Teithio Iach Cymru)

Defnyddio Technoleg yn Dda

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang



Cymru gydnerth



Cymru iachach



Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi.

Byddwn yn Defnyddio Technoleg yn Dda wrth:

- Ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar hyd y Gwasanaeth

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Gwella'r defnydd o nodweddion hunan-wasanaethu ein System Adnoddau Dynol cyfrifiadurol
- Diweddarau ein System Rheoli Fflyd i wella'r system a'i swyddogaethau.
- Cyflwyno system adrodd damweiniau iechyd a diogelwch a methiannau agos 24/7
- Amnewid peth o'n gweinyddion rhwydwaith i sicrhau gall ein systemau Technoleg, Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) elwa o ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a bod yn fwy hydwyth
- Gwella ein systemau TGCh fel bydd ganddynt amddiffyniad ehangach rhag ymosodiadau seibir posib
- Cwblhau uwchraddio ein systemau terfynell gyfrifiadurol symudol yn llawn ar ein peiriannau tân
- Ymchwilio i'r diweddariad mawr nesaf o ran caledwedd a meddalwedd gyfrifiadurol i gwrdd ag anghenion defnyddwyr
- Gosod System Leoli Fyd-eang (GPS) ym mhob un o'n Gorsafoedd i alluogi ein terfynellau cyfrifiadurol symudol ar ein peiriannau tân i weithio'n fwy effeithiol

Beth ydym wedi gwneud:

- Fe lansiwyd ein [pecyn cymorth hunan-asesu](#) newydd sydd bellach yn fyw ar ein gwefan i bobl allu penderfynu os ydyn nhw am dderbyn archwiliad diogelwch rhag tân yn y cartref
- Mae ein system AD wedi'i ddiweddarau yn ystod y 12 mis diwethaf gyda lansiad modiwl recriwtio "CoreHR" sydd wedi caniatáu recriwtio Llawn Amser ac Ar Alwad yn ogystal â recriwtio swyddi staff Corfforaethol i ddod yn ddi-bapur ac yn awtomataidd
- Mae ein system yn ein hadran Fflyd wedi'i ddiweddarau ac mae pob swyddogaeth yn "fyw" ac yn gweithio'n dda
- Rydym wedi defnyddio system sy'n elwa o rannu digwyddiadau uniongyrchol nid yn unig gyda'n partneriaid yng Nghymru, ond hefyd gyda'r awdurdodau cenedlaethol a ffiniau ehangach wrth iddynt ymuno â'r system; e.e. Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau a Heddlu Trafnidiaeth Prydain
- Rydym wedi cyflwyno system adrodd damweiniau a methiannau agos iechyd a diogelwch 24/7 ac mae staff yn ei defnyddio'n weithredol ac, er mwyn cadw'n gyfredol â'r dechnoleg ddiweddaraf, rydym wedi diweddarau ein system Microsoft SharePoint
- Rydym yn parhau i fonitro'r systemau rydym yn defnyddio i sicrhau nad oes gennym unrhyw feddalwedd sydd wedi dyddio ar y rhwydwaith. Bydd unrhyw beth sydd wedi dyddio'n cael ei dynnu, ei uwchraddio neu ei amnewid â meddalwedd arall
- Rydym wedi cwblhau'r diweddariad i'n Terfynellau Data Symudol (TDS) ac mae ein criwiau yn elwa o feddalwedd a gwasanaethau mapio mwy cyfredol



Esiamp! o Derfynell Data Symudol

Gwerthfawrogi Ein Pobl

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru fwy
cyfartal



Cymru
iachach



Cymru
lewyrchus



Cymru â diwylliant
bywiog lle mae'r
Gymraeg yn ffynnu



Cynnal
gweithlu
amrywiol sy'n
cynrychioli
eich
cymuned, a
hyfforddwyd
yn dda
ac sy'n
ymroddedig
i gyflawni ein
gwasanaeth.

Byddwn yn gwerthfawrogi ein pobl wrth:

- Ddenu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau
- Ddatblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Gefnogi ein pobl i deimlo'n dda, iach a'n hapus yn y gwaith

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Sefydlu rhwydweithiau gyda grwpiau cydraddoldeb lleol a chynnal sesiynau "blasu" gyda'r dydd i atynu talent newydd i'n Gwasanaeth
- Corffori proses werthuso effeithiol ar draws y Gwasanaeth
- Datblygu rhaglen i gefnogi iechyd meddwl y staff cyfan ac agwedd eangfrydig i wella lles gweithwyr i leihau absenoldeb drwy salwch a chanolbwytio ar hyrwyddo iechyd a ffitrwydd
- Creu amgylchedd cab glân di-heintiedig i'n diffoddwyr tân wrth ddarparu cyfleusterau storio ar gyfer cyfarpar Offer Anadlu y tu allan i gab y criw

Beth ydym wedi gwneud:

- **Sefydlu Rhwydweithiau** - Fe wnaethom gynnal grwpiau Ffocws Benywaidd - **Dod yn Ddiffoddwraig Tân** - Sesiynau rhithiol, a gafodd eu cynnal yn Ionawr 2021 ac a oedd yn boblogaidd gydag 20 o fenywod yn mynychu. Yn dilyn hyn, fe wnaeth y grŵp rannu eu rhifau ffôn gan sefydlu grŵp **WhatsApp** gyda diffoddwyr tân benywaidd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd i ofyn cwestiynau a thaflu syniadau at ei gilydd. Fe wnaeth diffoddwyr tân benywaidd GTADC ddarparu gwybodaeth gefndirol fanwl yn nhermau'r math o ddigwyddiadau tebygol y byddant yn gallu mynychu

- Roedd yr adborth a dderbyniwyd yn gadarnhaol iawn gyda sylwadau fel:

“llawer o help”, “edrych ymlaen at y broses”

a ***“wedi darparu mewnwelediad gonest”***

Digwyddiadau Ymroi i Ffitrwydd - O ganlyniad i bandemig Covid-19, roedd sesiynau “Ymroi i Ffitrwydd” yn brin. Mynychodd 66 ar draws pedwar sesiwn

- **Ymgyrch Recriwtio SDdG - (Diffoddwr Tân System Ddyletswydd Llawn Amser) 2020-21**

- Roedd 10% (246) o ymgeiswyr yn fenywaidd - fodd bynnag, ni wnaeth 19% o ymgeiswyr ddatgelu'u rhywedd yn y cam ymgeisio
- Roedd 6% (5 ymgeisydd) yn fenywaidd ac yn llwyddiannus yng ngham cyfweld y SDdG ac o ganlyniad fe'u penodwyd yn ddiffoddwyr tân. Mae hyn yn cymharu'n gadarnhaol â'r 3% o'r gweithwyr SDdG cyfredol sy'n fenywaidd
- Roedd 79 o ymgeiswyr llwyddiannus pellach a benodwyd yn wrywaidd
- Roedd 2.7% (67) o ymgeiswyr yn adnabod eu hunain o genedligrwydd BAME (Du, Asiaidd, Ethnigrwydd lleiafrifol)
- Roedd 5% o'r holl ymgeiswyr a oedd yn llwyddiannus yn y cyfweiliad yn adnabod eu hunain o genedligrwydd BAME. Mae hyn yn cymharu'n ffafrifol â'r <1% o weithwyr SDdG cyfredol sy'n adnabod eu hunain o genedligrwydd BAME

- **Ymgyrch Recriwtio SDdAA 2020-21**

- Cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd oedd 555, ac o blith y rhain, roedd 70 yn fenywaidd ac o blith y rhain, penodwyd 86 ohonynt, ac o blith y rhain roedd 13 yn fenywaidd

- **Ymgyrch Recriwtio Cyd-reoli Tân 2020-21**

- Fe wnaethom dderbyn 395 o geisiadau. Gwahoddwyd 33 ymgeisydd i gyfweiliad, gyda 18 yn cael eu penodi

- **Recriwtio Corfforaethol 2020-21**


- Cyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd oedd 356, ac o blith y rhain, penodwyd 16 o fenywod ac 21 o wrywod

- **Proses Werthuso Newydd** - Rydym wedi lansio proses werthuso newydd o'r enw'r 'Adolygiad Personol'. Mae'r adolygiad hwn wedi cael ei greu i annog sgysiau o safon rhwng y Rheolwr Llinell a gweithwyr, gyda'r bwriad o gefnogi, meithrin a datblygu staff i gyrraedd eu llawn botensial ac i adeiladu galluogrwydd ar draws y Gwasanaeth, ac â'r nod derfynol o gefnogi a gwasanaethu ein cymunedau

Mae'r broses Adolygiad Personol wedi cael ei greu i ganolbwyntio ar feysydd allweddol:

- Llesiant Gweithwyr
 - Cryfderau Gweithwyr a Meysydd o Gryfder i Adeiladu
 - Perfformiad
 - Uchelgeisiau Gyrfa
 - Gosod Amcanion Datblygu
- **Prosiect Iechyd Meddwl** - Dechreuodd y Prosiect Iechyd Meddwl yn Nhachwedd 2019, gyda'r nod o ddatblygu darpariaeth iechyd meddwl sy'n cefnogi unigolion wrth ddarparu gwasanaeth teg a chymesur sy'n adlewyrchu'r meysydd allweddol dilynol:
 - Atal
 - Amddiffyn
 - Dyrchafu
 - **Rhaglen Beilot Sgrinio am Drawma** - Cafodd rhaglen beilot ei lansio yn Nhachwedd 2020 o fewn Gorsafoedd Tân Canol Caerdydd, Merthyr Tudful a Threfynwy. Fe wnaeth personél gorsafoedd dderbyn Holiadur Sgrinio am Drawma yn dilyn eu mynychiad mewn 'Digwyddiad Llesiant'. Mae'r arolwg electronig yn gofyn i bobl adlewyrchu wrth ateb 10 cwestiwn sy'n ymwneud â thrawma a 2 gwestiwn sy'n ymwneud ag iselder yn dilyn eu presenoldeb yn y digwyddiad. Fe wnaeth y peilot dagio wyth digwyddiad ac wedi hyn, danfonwyd ffurflenni sgrinio at y 68 o bersonél, gyda 27 yn eu cwblhau a'u dychwelyd
 - **Lansio'r Tag Llesiant** - Lansiodd menter Tag Llesiant ar gyfer cefnogaeth ôl-ddigwyddiad ar y 3ydd o Chwefror, 2020. Mae'r tag yn caniatáu i Benaethiaid Digwyddiad a Chyd-reoli Tân dagio unrhyw ddigwyddiad a all fod wedi effeithio lles a daioni criw. Yn hanesyddol, roedd cefnogaeth ôl-ddigwyddiad yn cael ei gynnig ar ôl marwolaeth yn unig

- **Cabiau Glân** - Yng Ngorffennaf 2020 darparwyd peiriannau tân Scania newydd i Orsafoedd Tân Merthyr Tudful, Malpas, Pontypridd, Y Rhath a Dyffryn. Mae'r genhedlaeth newydd o beiriannau tân o ganlyniad i weithio traws adrannol ac adborth parhaus gan ddiffoddwyr tân. Mae gan y cerbydau liaws o nodweddion newydd sy'n eithafu'r dechnoleg fwyaf cyfoes



Adnodd Mewnrwyd ar gyfer Cefnogaeth Iechyd Meddwl

- Fe wnaeth y '**Rhaglen Golau Glas**' ail lansio o fewn y DU yn dilyn cyllid drwy law'r Sefydliad Brenhinol. Fe wnaethom gydweithio ag elusen 'MIND' a'r Sefydliad Brenhinol wrth ail-ddatblygu adnoddau. Hefyd, fe ofynnwyd i ni gymryd rhan mewn cyfweiliadau â'r cyfryngau i hyrwyddo lansiad y 'Rhaglen Golau Glas' drwy law undeb llafur y GMB, Newyddion ITV a Wales Online

gan gynnwys rheolyddion corlan
bwmpio ddigidol, gwell goleuo a
storio

- Cynlluniwyd dau o'r pum cerbyd
newydd gyda chysyniad y Cab
Glân. Mae diogelwch a lles
aelodau'r criw o'r pwys mwyaf
ac fe gynorthwyir hyn gan dynnu
setiau OA o'r cab a'u rhoi mewn
loceri sy'n tynnu allan yn yr ardal
storio



Esiaml o amgylchedd cab glân

Ystadegau Absenoldeb

Er gwaethaf blwyddyn anodd yn delio â'r pandemig Covid-19 a oedd yn esblygu, mae ffigyrau absenoldeb drwy salwch y Gwasanaeth wedi lleihau am yr ail flwyddyn yn olynol.

Gostyngodd Absenoldeb drwy Salwch : Fe wnaeth nifer y shifftiau/dyddiau a gollwyd i salwch hirdymor ostwng
9.5% o'r flwyddyn flaenorol. **12.1%** o'r flwyddyn flaenorol.

Roedd cynnydd bach o : Roedd arweiniodd **15**
11 | 15 o anafiadau ar ddyletswydd, yn gyfan am y cyfnod hwn, at absenoldeb
arweiniodd at salwch. **46** ac o blith y rhain, drwy salwch.

Parhau i Weithio'n Effeithiol

Wrth gefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:



Cymru lewyrchus



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



Cymru iachach



Sicrhau
bod ein
Gwasanaeth
yn rhoi
gwerth am
arian ac yn
amlwg yn
atebol.

Byddwn yn parhau i weithio'n effeithiol wrth:

- Fod yn eglur a'n atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Ddatblygu ffyrdd newydd o weithio

Fe wnaethom ddweud y byddwn yn:

- Casglu a monitro'r data cywir i fesur sut rydym yn perfformio
- Cyhoeddi pob adroddiad sy'n amlygu perfformiad mewn modd sy'n hawdd ei ddeall
- Cefnogi strategaeth cyd-leoli'r cyd-wasanaethau brys ac archwilio cyfleoedd pellach i rannu safleoedd yn y dyfodol

Beth ydym wedi gwneud:

- **Data** - Fe wnaeth ein tîm Ystadegau a Risg weithio law yn llaw â'n Tîm Digwyddiad Critigol Covid-19 i ddarparu amryw o ddata, teclynau gweledol a dangosfyrddau i reolwyr fonitro. Fe wnaeth hyn gynorthwyo'r Gwasanaeth i reoli argaeledd staff a gweithgareddau darparu gwasanaethau yn ystod y pandemig
- Roedd y cyfresi data hyn yn cynnwys:
 - Gweithgarwch cydymffurfedd Covid-19 i orsafoedd a lleoliadau eraill
 - Ffigyrau absenoldeb staff
 - Presenoldeb mewn lleoliadau swyddfa i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng gweithio o gartref a mynychu'r swyddfa
 - Monitro OGP mewn gorsafoedd tân, i sicrhau cyflenwad o eitemau megis masgiau wyneb, hylif di-heintio a ffedogau plastig

- **Adroddiadau** - Mae pob adroddiad a gyflwynir yn chwarterol i'n Hawdurdod Tan ac Achub (ATA) a'r amryw is-bwyllgorau, fel y Pwyllgor AD a Chyfle Cyfartal a'r Pwyllgor Cyllid a Rheoli Perfformiad ar gael i'r cyhoedd ar ein rhyngrwyd a gellir eu canfod [yma](#)
- Hefyd, rydym yn cofnodi'r cyfarfodydd pwyllgor hyn a gellir canfod dolen i'r rhain ar ein gwefan [yma](#)
- **Eiddo** - Mae ein Hadran Gwasanaethau Eiddo yn ystyried y strategaeth cyd-leoli'n weithredol wrth ymgymryd â phrosiect mawr ar safle GTADC. Mae deialog cyson rhwng partneriaid yn y gwasanaethau brys a chyfranddalwyr drwy law'r Grŵp Ystadau'r Cyd-Wasanaethau Brys, lle bydd gwybodaeth yn cael ei rannu ar gyfer safleoedd cyd-leoli posib a all o bosib fod yn addas ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol agos
- Rydym yn bwriadu helpu gyda chyflenwi'r prosiectau cyd-leoli, gan fod cydweithredu fwyaf priodol i'r math o adeiladau sy'n cyfansoddi ein hystad. Rydym yn cynnal cydberthynas waith agos â Thîm Ystadau Heddlu De Cymru ac YGAC, yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y posibilrwydd o gydweithrediadau yn y dyfodol a sut all hwn hysbysu'r strategaeth wrth symud ymlaen
- **Gwelliant Parhaol** - Fe wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol dystio fod y Gwasanaeth wedi cwrdd â'i ddyletswydd gyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd gwelliant ac yn credu ei fod yn debyg o gwrdd â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

CYFRIFEG

	2019-20	2020-21	2021-22
	£MILIWN	£MILIWN	£MILIWN
Costau Gweithwyr	54.9	59.6	62.5
Treuliau Cysylltiedig ag Adeiladau	5.0	5.0	5.4
Treuliau Hyfforddi	1.5	1.4	1.3
Cyflenwadau a Gwasanaethau	3.8	4.2	5.2
Treuliau Cysylltiedig â Thrafnidiaeth	1.3	1.4	1.3
Gwasanaethau dan Gontract	0.9	0.8	0.9
Costau Cyfalaf / Prydlesu	4.6	4.6	4.3
Incwm	-1.6	-5.1	-7.5
CYFANSWM	70.4	71.9	73.6

2020
2021

GRANTIAU REFENIW
£6.5 miliwn*

GRANTIAU MENTER CYLLID PREIFAT
£1 miliwn

RHAGLEN GYFALAF
£3.6 miliwn

£407,000 Cerbydau
£2,122,000 TGCh
£1,057,000 Eiddo

* Yn 2020-21 mae gwariant Grant Refeniw wedi cael ei gynnwys o fewn costau gwariant.

Archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2019-2020

Bob blwyddyn mae Archwiliad Cymru yn archwilio datganiadau ariannol y Gwasanaeth.

Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg ddiamedd ar ddatganiadau ariannol yr ATA ar 28ain o Orffennaf 2021.

“Yn fy marn i, mae’r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a teg ar safle ariannol Awdurdod Tân ac Achub De Cymru a’i incwm a’i wariant, ac fe’u paratowyd yn briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol”

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Datganiadau Cyfrifon Archwiliedig

Rhybudd o Gwblhau Cyfrifon



Archwiliadau mewnol

Awdurdod Tân ac Achub De Cymru 2020-21

Archwiliadau eraill

Yn ystod 2020-21 roedd un ar ddeg o archwiliadau a gynhaliwyd gan TIAA, ein harchwilydd mewnol cytundebol. Cafodd pob archwiliad ei asesu yn erbyn y pedair lefel o foddhad cyfansymiol - sylweddol, rhesymol, cyfyngedig neu ddim, ynghyd â chatau cymeradwyo (os o gwbl), a gafodd eu cofnodi i'n System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB) ar gyfer monitro cynnydd chwarterol.



Sicrwydd Sylweddol



Sicrwydd Rhesymol



Sicrwydd Cyfyngedig



Dim Sicrwydd

Enw'r Archwiliad	Lefel Sicrwydd	Nifer y camau
Adolygiad Sicrwydd o Gaffael	Sylweddol	3
Adolygiad Sicrwydd o Gyfathrebiadau	Sylweddol	1
Adolygiad Sicrwydd o Reoli Strategol	Sylweddol	0
Adolygiad Cydymffurfiaeth - Rheolyddion Lliniaru	Sylweddol	0
Adolygiad Sicrwydd o Sicrwydd Data TGCh	Rhesymol	3
Adolygiad Sicrwydd o Reolaeth Adnoddau Dynol - Hyfforddiant	Rhesymol	2
Adolygiad Sicrwydd o Gynaliadwyedd - Defnydd o Bapur	Rhesymol	6
Adolygiad Sicrwydd o Gyflenwi Rheolaeth Ystadau	Rhesymol	3
Adolygiad Sicrwydd o Reolyddion Ariannol Allweddol	Rhesymol	1
Adolygiad Sicrwydd o Ymrwymadau Allanol, Buddiannau Personol a Busnes	Rhesymol	3
Adolygiad Cydymffurfiaeth o Ymweliadau â Gorsafoedd	Rhesymol	9

Archwiliad ac Adolygiad o Gyfranogiad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Archwilio Cymru


Fe wnaeth Archwilio Cymru ymgymryd ag archwiliad yn 2019-2020 i adolygu dull a rheolaeth y Gwasanaeth o gynnwys cyfranddalwyr wrth gynnig newidiadau gwasanaethu a pholisi ac yng nghynllunio gweithgareddau. Hefyd, fe wnaethant ymgymryd â golwg fwy manwl ar:

- Sut mae'r Gwasanaeth yn cynnwys cyfranddalwyr wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2025 newydd; a
- Chynllunio digwyddiadau ymgysylltu cyhoeddus fel diwrnodau agored i Orsafoedd Tân, digwyddiad Sefydliad Achub y Deyrnas Unedig (UKRO) yn 2018 a'r digwyddiad Cyd-wasanaethau Brys yn 2019

Fe wnaeth Archwilio Cymru gytuno fod:

“Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n dda wrth gynnwys partneriaid a chymunedau, ond mae angen iddynt gryfhau ei werthuso i arddangos effaith gadarnhaol ei waith”.

Gellir gwyllo'r adroddiad cyfan [yma](#).



Beth ydyn ni'n cynllunio i wneud yn 2022-2023

Mae ein gweledigaeth hirdymor o “Wneud De Cymru'n Ddiogelach wrth Leihau Risg” yn parhau.

I gyflawni hyn, mae gennym set o wyth Thema Strategol. Bydd y themâu hyn a'u hamcanion perthnasol yn caniatáu i ni barhau i ddarparu ymateb effeithiol i'n cymunedau yn eu hawr anghennus a darparu gwasanaeth sydd wedi'i alinio ag egwyddorion DLICD;

“ Dylai pob gwasanaeth cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n chwilio i sicrhau bydd gofynion y presennol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy. ”

Rydym yn cynnig Amcanion a ddatblygwyd wrth wrando ar adborth o'n hymgyngoriad cynnar gydag amrywiaeth o bobl ar hyd De Cymru ac wrth gymryd i ystyriaeth ein hymrwymiad i adeiladu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd i bopeth y gwnawn – o greu gweithle sydd wir yn rhoi gwerth i amrywiaeth gweithwyr i ddarparu gwasanaethau sy'n ganolog i'r bobl i'n holl gymunedau yn Ne Cymru.

Gellir canfod ein Cynllun Strategol 2020-2030 yma ac fe'i cefnogir gan gynlluniau allweddol eraill isod:




Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2022-2023

Fewnaethom gynnal ymarferiad i ymgynghori'n gynnar ac archwilio beth sy'n bwysig am ein Gwasanaeth gydag amryw o bobl yn Ne Cymru, gan gynnwys staff, y cyhoedd a phartneriaid. Cynhaliwyd yr arolwg am dair wythnos ac fe gaeodd ar y 9fed o Orffennaf 2021. Fe wnaeth cyfanswm o 78 o bobl ymateb i'r arolwg cyn-ymgyngoriad gyda thri pherson yn ymateb i'r arolwg yn Gymraeg. Roedd 62 o ymatebwyr yn aelodau staff ac 16 yn gyfranddallwyr allanol.

Cynrychiolir ymatebwyr i'r arolwg yn y siart isod.

Perthynas yr Ymatebwr â GTADC (% o'r rhaniad)




Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2022-2023

Fe wnaeth ein Tîm Cyfryngau a Chyfathrebiadau godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r arolwg cyn-ymgyngoriad mewn nifer o ffyrdd:

- E-bost torfol i'r staff cyfan, ynghyd â nodyn atgoffa
- E-bost, ynghyd â nodyn atgoffa wedi'i ddanfôn at bawb sydd ar ein Cofrestr Rhanddeiliaid
- Danfonwyd e-byst at Benaethiaid Gorsaf, Rheolwyr Gwylfa a Rheolwyr Criw, adrannau ac 'eiriolwyr' i annog adborth ledled y Gwasanaeth
- Graffig a dolen i'r arolwg ar hafan mewnwyd ein Gwasanaeth
- Gwybodaeth a dolen i'r arolwg a gyhoeddwyd yn ein cylchlythyr mewnol
- Hyrwyddwyd drwy law Fforwm Shout
- Sesiynau Ymroi i Ffithrydd

Fe wnaeth ymatebwyr gytuno fod pob un o'n wyth Thema Strategol yn parhau'n bwysig.

Graddio Pwysigrwydd Thema Strategol



Sut wnaethom ddatblygu ein cynllun ar gyfer 2022-2023

Hefyd, fe wnaeth yr arolwg amlinellu meysydd y dylwn fod yn canolbwyntio arnynt y flwyddyn nesaf i wella ein Gwasanaeth:

- Dyrchafu cwmpas ymgysylltu cyhoeddus
- Ymateb Meddygol Tân (YMT)
- Cynllunio arweinyddiaeth y dyfodol
- Cyfleoedd Dysgu a Datblygu
- Ffyrdd newydd o weithio
- Strategaethau recriwtio
- Lleihau ôl-troed carbon
- Hyfforddiant
- Tryloywder a chysondeb
- Gwerthfawrogi staff

Mae ein Huwch Dîm Rheoli a'r ATA wedi cymryd yr holl wybodaeth a gaffaelwyd o'r arolwg i ystyriaeth ac hefyd wedi edrych ar flaenoriaethau'r dyfodol, risgiau a ffyrdd o weithio i ddatblygu ein hamcanion arfaethedig ar gyfer 2022-23.

Cynigir bydd un o'n hamcanion yn newid, bydd un yn symud i thema strategol sy'n fwy perthnasol ac fe ychwanegir dau amcan newydd, un o fewn Gwerthfawrogi ein Pobl ac un yn Diogelu ein Hamgylchedd.

Ein Themâu Strategol

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae ein Themâu Strategol yn alinio â'r Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cefnogi ein Hamcanion Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.

Thema Strategol	Yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol				Yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus		
Eich Cadw'n Ddiogel	 Cymru gydnerth	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Cymru iachach	 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	 Cymunedau Diogelach	 Cychwyn Gorau	 Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd
Ymateb i'ch Argyfwng	 Cymru gydnerth	 Cymru iachach			 Cymunedau Diogelach	 Gweithio Gyda'n Gilydd	
Defnyddio Technoleg yn Dda	 Cymru gydnerth	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	 Cymru lewyrchus		 Gweithio Gyda'n Gilydd	
Gweithio gyda'n Partneriaid	 Cymru gydnerth	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	 Cymru sy'n fwy cyfartal		 Gweithio Gyda'n Gilydd	
Ymgysylltu a Chyfathrebu	 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	 Cymru iachach	 Cymru gydnerth	 Cymru o gymunedau cydlynus	 Gweithio Gyda'n Gilydd	 Dod yn Rhan	
Gwerthfawrogi Ein Pobl	 Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang	 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	 Cymru iachach		 Cyflogadwyedd, Sgiliau a Chyfleoedd	 Ffordd o fyw iach	
Diogelu Ein Hamgylchfyd	 Cymru sy'n fwy cyfartal	 Cymru iachach	 Cymru lewyrchus	 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	 Diogelu'r Amgylchedd		
Parhau i Weithio'n Effeithion	 Cymru lewyrchus	 Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu	 Cymru iachach		 Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd	 Gweithio Gyda'n Gilydd	 Dinasoedd sy'n Gweithio

Eich Cadw'n Ddiogel

Mae hyn yn golygu...

Ein Gweledigaeth “**I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg**”. Rydym yn gwneud hyn drwy law ein gwasanaethau addysgu, atal, ac amddiffyn. Bydd ein hamcanion o dan y thema hon yn canolbwyntio ar atal ac addysgu, gan ein bod yn ffyddiog y gall addysgu atal tanau ac argyfyngau eraill.

Ein Hamcanion...

- **Lleihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau**
- **Lleihau nifer y tanau yn y cartref a deall eu hymddygiadau a'u hachosion**
- **Lleihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd**
- **Lleihau nifer y tanau bwriadol**
- **Gwella diogelwch yn y dwr ac o'i amgylch**
- **Gwella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau**

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Mae cadw De Cymru'n ddiogel ac wedi'i gysylltu'n dda yn bwysig i ni. Mae lleihau tanau yn caniatáu i ni amddiffyn ein hamgylchedd naturiol, a thrwy hynny, cefnogi'r economi wledig, llesiant ein cymunedau a diogelu cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Defnyddio technoleg ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a darparu gwasanaethau fel cyngor diogelwch yn y cartref ac ymweliadau rhithiol ag ysgolion drwy law ein cyfleusterau ar-lein
- Targedu gweithgareddau diogelwch tân ac ar y ffyrdd at y rhai hynny yn ein cymunedau a adnabuwyd eu bod o dan risg uwch
- Creu agwedd risg sydd wedi'i "ganoli ar y person" yn fwy wrth dargedu gweithgareddau a ddarperir ar y cyd â'n hadrannau Diogelwch Tân Busnes (DTB) a Diogelwch Tân Cymunedol (DTC)
- Archwilio eiddo domestig a busnes gydag agwedd sy'n seiliedig ar risg
- Addysgu ein cymunedau i fod "Yn Ymwybodol o Ddŵr" wrth fod yn agos at gyrsiau dŵr, yn ystod llifogydd ac wrth ymgymryd â gweithgareddau hamdden sy'n ymwneud â dŵr
- Defnyddio ein presenoldeb ym mhob ysgogiad arwydd tân damweiniol i addysgu meddiannwyr o eiddo domestig a busnes ar sut mae modd iddynt wneud eu safleoedd yn ddiogelwch rhag peryglon tân

Ymateb i'ch Argyfwng

Mae hyn yn golygu...

Byddwn bob amser yn sicrhau ein bod yn darparu ymateb effeithlon ac effeithiol i'n cymunedau pan fydd angen. Golyga hyn bod angen pobl sydd wedi'u hyfforddi i'r safon uchaf arnom a'r offer diweddaraf sydd ar gael i sicrhau na fydd diogelwch ein cymunedau byth yn cael ei beryglu. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein diffoddwyr tân a'n Staff Cyd-reoli Tân i sicrhau y cânt ymateb i'r amrediad eang o ddigwyddiadau rydym yn wynebu nawr ac i'r dyfodol.

Ein Hamcanion...

- Ymateb yn effeithiol pan fyddwch wir ein hangen
- Gwneud y cyfan gallwn i sicrhau bydd ein diffoddwyr tân System Ddyletswydd Ar Alwad ar gael
- Hyfforddi ein personél i ymateb i risgiau cyfredol a risgiau'r dyfodol o fewn ein cymunedau

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Bydd ein hymateb yn cael ei ddatgan o fewn ein Cynllun Strategol, ynghyd â'r hyn fyddwn yn gwneud i wella ein gweithrediadau. Hefyd, mae angen i ni gael cynlluniau mewn lle i sicrhau ein bod yn barod ac ar gael i ymateb i argyfyngau, wrth gynnal ein darpariaeth gwasanaethau craidd.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Corffori ein Strategaeth Achub o Ddŵr drwy law hyfforddiant cychwynnol a dargedwyd
- Ffocws parhaus ar recriwtio a chadw ein diffoddwyr tân Dyletswydd Ar Alwad
- Adolygu ein hadnoddau'n barhaus i ymateb yn effeithiol i argyfyngau wrth iddynt godi
- Adolygu a datblygu ein rhaglen hyfforddi sgiliau gweithredol yn unol â gofynion ein Gwasanaeth i'r dyfodol

Gweithio â Phartneriaid

Mae hyn yn golygu...

Mae gennym hanes sefydledig a balch o weithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwelliannau mesuradwy, arbedion effeithlonrwydd ac i gwrdd â gofynion y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys cyfrannu at flaenoriaethau strategol a chynorthwyo wrth wella llesiant cymunedol.

Our Objectives...

- **Gweithio â'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i gefnogi ein cymunedau**
- **Gweithio gyda'n partneriaid i ddarparu ein gwasanaethau lle maent eu hangen**
- **Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol**

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Rydym yn cydnabod buddion gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i gyflenwi gwasanaethau gwerth gorau i'r cymunedau rydym yn cydwasanaethu. Bod rhannu gwybodaeth a sgiliau wrth galon ddyfodol ein Gwasanaeth. Mae trefniadau newydd gyda'n partneriaid lleol a gwasanaethau tân ac achub eraill eisoes mewn lle, ond rydym yn anelu i ddwysáu'r cydberthnasau hyn ac adnabod cyfleoedd eraill i weithio'n gydweithredol hefyd. Nid yn unig bydd gweithio mewn partneriaeth yn caniatáu i ni rannu beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud e, ond hefyd, bydd yn ein rhoi mewn safle gwell i adnabod cyfleoedd ychwanegol i wella gan eraill, gan sicrhau gwasanaeth mwy effeithlon a chost effeithiol i'n cymunedau.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Datblygu cyfleoedd ar gyfer safleoedd cyd-leoli Golau Glas ar draws ein hardal
- Adolygu a datblygu ein cydberthnasau â'n Partneriaid Diogelwch Tân Cymunedol allweddol
- Gwella rhannu data gyda'n partneriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus i'n helpu ni i ddarparu'r gefnogaeth gywir i'r rhai hynny sydd fwyaf agored i niwed
- Parhau i adeiladu perthnasau a gweithio law yn llaw â'n partneriaid ym mhob un o'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yr ydym yn rhan ohonynt

Ymgysylltu a Chyfathrebu

Mae hyn yn golygu...

Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu ac ymgysylltu â'n staff, ein cyfranddallwyr, ein cymunedau a'n partneriaid wrth feithrin agwedd gadarnhaol at gyfathrebu. Mae cyfathrebu'n flaenoriaeth allweddol wrth sicrhau fod ein staff, ein cyfranddallwyr, ein cymunedau a'n partneriaid yn ymwybodol o'r gwaith rydym yn ymgymryd ag ef, yr heriau rydym yn wynebu a'u bod yn gallu bod ynghlwm â llunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym yn credu y gallwn ddarparu ein negeseuon allweddol yn effeithiol wrth sicrhau ffocws parhaol ar addysgu, ymgysylltu a chyfathrebu.

Ein Hamcanion...

- Cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'n cymunedau
- Helpu cadw ein cymunedau'n ddiogel wrth addysgu a mynychu digwyddiadau cymunedol

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Gall gweithio cydlynus fel rhan o gymuned sydd â chysylltiadau da ddarparu gwelliant ehangach nag wrth weithio'n unig, a thrwy hynny'n sicrhau gwell cyfleoedd i gadw preswylwyr, busnesau ac ymwelwyr De Cymru'n ddiogelach. Bydd hyn nid yn unig o fudd i'n cymunedau ond hefyd, bydd yn cyfrannu'n sylweddol at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Chwilio am ffyrdd arloesol a chyfleoedd lleol i ymgysylltu â'n cymunedau ar gyfer mentrau addysgu lleihau risg a gweithgareddau recriwtio
- Gwella ymhellach ein cyfathrebiadau dwy ffordd gyda staff gorsafoedd, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddatrysiadau technolegol
- Annog mwy o staff o bob adran i gyfranogi yn ein fforwm i staff - Shout - i ymgysylltu, cyfathrebu a chaniatáu i staff rannu'u syniadau ar gyfer gwelliannau i'r Gwasanaeth
- Cynnwys ac ymgynghori gyda'n staff, y cyhoedd a'n partneriaid i gael eu sylwadau a'u safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau i newid ein gwasanaethau, cyfarpar a'n cyfleusterau

Diogelu ein Hamgylchedd

Mae hyn yn golygu...

Rydym yn gwybod bod gan ein gweithgareddau effaith ar yr amgylchedd rhyngwladol a lleol ac rydym yn ymroddedig i leihau unrhyw effeithiau negyddol. Rydym wedi datblygu Cynllun Lleihau Carbon a Chynllun Bioamrywiaeth sydd, gyda'i gilydd, yn cynnig ystod o gamau sy'n canolbwyntio ar leihau ein heffaith amgylcheddol ac yn diogelu ac adfer ein systemau biolegol. Rydym yn ymroi i anwesu mathau o ynni adnewyddol i gefnogi cynaliadwyedd ac amcanion amgylcheddol DLI CD.

Ein Hamcanion...

- **Lleihau ein defnydd o ddeunyddiau defnydd sengl**
- **Ymchwilio'r defnydd o gerbydau trydanol**
- **Lleihau ein defnydd o ynni ac archwilio dulliau amgen**
- **Ystyried sut mae ein hymateb a'n gweithgareddau yn effeithio ein hamgylchedd**
- **Lleihau'r maint o wastraff rydym yn cynhyrchu**

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Rydym yn credu mewn buddsoddiadau hirdymor i systemau sy'n lleihau gwastraff a byddwn yn parhau i edrych am ffyrdd sy'n gwneud GTADC yn arweinydd mewn cynaliadwyedd. Bydd yr holl benderfyniadau a'r cynlluniau rydym yn gwneud yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n cynnwys y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a gorfforwyd o fewn DLI CD.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Recriwtio myfyriwr graddedig o'r Rhaglen Gwasanaeth Cyhoeddus i raddedigion Cymru Gyfan i gefnogi ein prosiectau Cynaliadwyedd
- Datblygu system ar gyfer "cynhaefu dŵr llwyd" fydd yn casglu dŵr a ddefnyddiwyd gennym ac ail-ddefnyddio'r dŵr a gasglwyd ar gyfer amgylchiadau penodol
- Datblygu gerddi "llesiant" yn ein gorsafoedd tân a safleoedd eraill, gan ddefnyddio cynnyrch sydd wedi'i ailgylchu lle bynnag posib, a ail-ddefnyddir fel celfi a photiau gardd
- Ymestyn y defnydd o gerbydau trydanol gan gynyddu nifer y cerbydau trydanol ysgafn yn ein fflyd
- Peilota'r defnydd o baneli solar, yn eu gosod yn ein Pencadlys a Gorsaf Dân y Barri erbyn Mawrth 2022, i asesu dichonolrwydd cyflwyniad pellach mewn lleoliadau eraill i'r Gwasanaeth
- Sicrhau gwarediad moesol offer sydd wedi cyrraedd diwedd oes

Defnyddio Technoleg yn Dda

Mae hyn yn golygu...

Defnyddio technoleg yn well i wella ein prosesau a'n systemau i'w gwneud yn addas at y dyfodol, gan ein bod yn cydnabod fod hyn yn chwarae rôl hanfodol yn sut rydym yn darparu ein gwasanaethau. O'n technegau a'n cyfarpar ymladd tân gweithredol i'n systemau cefnogi swyddfa gefn, rydym yn bwriadu eithafu dyrchafiadau technolegol i gefnogi a gwella'r ffyrdd rydym yn darparu gwasanaethau.

Ein Hamcanion...

- Defnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf addas i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar hyd y Gwasanaeth

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Bydd ein datblygiad technolegol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i lesiant ehangach ein staff a'r cymunedau rydym yn gwasanaethu.

Bydd defnydd effeithiol o TGCh a chyfarpar yn sicrhau y lleolir ein hadnoddau gweithredol orau i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau. Wrth brynu gwasanaethau a chyflenwadau, byddwn yn defnyddio Datganiad Polisi Caffael Cymru 2015 a gweithdrefnau i sicrhau bydd prosesau teg a thryloyw yn cael eu defnyddio i gefnogi busnesau lleol a gwella'r economi leol.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Darparu prosiect mawr "traws adrannol" i fabwysiadu'r systemau Microsoft Cloud mwyaf diweddar gan gynnwys Teams ac Office 365
- Gosod mwy o bwyntiau gwefru cerbydau trydanol ar draws safleoedd ein Gwasanaeth
- Cynllunio ac adeiladu system rheoli addysgu digidol newydd i ddal holl becynnau hyfforddi ar gyfer staff gweithredol a chorfforaethol o fewn y Gwasanaeth

Gwerthfawrogi Ein Pobl

Mae hyn yn golygu...

Dylai ein gweithlu gynrychioli'r cymunedau rydym yn gwasanaethu, a bod yn amrywiol, yn gydradd ei werth, ac â mynediad i ddatblygu yn ogystal â chyfleoedd proffesiynol. Bydd Cynllun Ein Pobl, Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant yn cefnogi ein gwaith ar recriwtio, y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, cynhwysiant ac iechyd ac yn helpu datblygu'r diwylliant a'r ymddygiadau sydd eu hangen o fewn ein Gwasanaeth. Bydd hyn yn darparu gwelliannau nid yn unig i staff cyfredol/y dyfodol ond hefyd y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Bydd cynnydd yng nghyfranogaeth ein staff i'n fforwm ar-lein Shout yn ein helpu ni i ddeall materion staff yn well ac yn caniatáu i fwy o staff gyfrannu'n haws yn yr hyn rydym yn gwneud.

Ein Hamcanion...

- **Denu gweithlu sy'n adlewyrchu a chynrychioli ein cymunedau**
- **Datblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu**
- **Cefnogi ein pobl i deimlo'n dda, yn iach a'n hapus yn y gwaith**
- **Darparu ar argymhellion Adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl**
- **Annog a chefnogi diwylliant dwy-ieithog ar draws y Gwasanaeth**

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth galon diwylliant ein Gwasanaeth. Byddwn yn darparu llwybrau clir ar gyfer dyrchafu ac amgylchedd gwaith iach ar gyfer diogelwch a lles staff, gweithredu arferion gwaith sy'n cefnogi ffordd o fyw iach a chydbywedd bywyd a gwaith.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Corffori'r broses Adolygiad Personol gan sicrhau ei fod yn cefnogi staff ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i ddatblygu staff a chefnogi'u dyheadau gyrfa a chynllunio am olyniaeth y Gwasanaeth i'r dyfodol
- Lansio "llwybrau dysgu" newydd i'r staff cyfan yn Ebrill 2022
- Gweithio'n Hyblyg clir sydd â chanolbwynt ar ganlyniadau
- Datblygu a chyfathrebu strategaeth sengl ar gyfer iechyd meddwl a lles
- Sefydlu model darparu AD sydd o fudd i ddefnyddwyr y pendraw ac sy'n darparu gwasanaeth mwy syml
- Cyfathrebu'r cynllun Pensiwn Sector Cyhoeddus newydd, sy'n cael ei lansio yn Ebrill 2022 i staff
- Cyflawni ffyrdd arloesol i gefnogi a pharatoi'r ymgeiswyr hynny sydd o grwpiau amrywiol a lleiafrifol i gyfranogi'n fwy llwyddiannus yn ein proses recriwtio

Parhau i Weithio'n Effeithiol

Mae hyn yn golygu...

Rydym yn bwriadu arddangos gwerth am arian ar bob adeg ac yn darparu ein gwasanaethau am gost sydd gyda'r isaf posib a'r safon uchaf posib. Wrth ystyried faint i'w wario, mae'r angen i wella'r ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau a lleihau risg yng nghymunedau De Cymru'n parhau'n flaenoriaeth i ni. Byddwn yn gweithio ar gynllunio canol a hirdymor, gan ddatblygu ffyrdd newydd o weithio a darparu ein gwasanaethau yn wyneb yr her ariannol barhaus a phroffiliau risg newidiol ein cymunedau. Byddwn yn cefnogi Aelodau'r Awdurdod Tan ac Achub ac yn darparu iddynt y wybodaeth sydd angen arnynt i gynnal eu rolau arweinyddol a chraffu yn effeithiol.

Ein Hamcanion...

- **Bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd**
- **Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth**
- **Datblygu ein cynlluniau a'r ffordd ymlaen ar gyfer ffordd 'gyffredin' newydd o weithio**

Rydym yn cynnig gwneud hyn oherwydd...

Rydym yn cydnabod mai ein staff yw'n ased mwyaf gwerthfawr. Fodd bynnag, i'n staff fod yn effeithiol, rhaid iddynt gael y cyfleusterau a'r adnoddau gorau ar gael iddynt. Mae angen i'n penderfyniadau ar wario ar asedau corfforol fod yn effeithlon ac effeithiol i gefnogi ac ymateb i ddarpariaeth ein gwasanaethau. Bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu craffu gan ein Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad ac rydym yn bwriadu sicrhau y byddwn yn darparu gwerth am arian am y gwasanaeth rydym yn darparu i'r cyhoedd yn Ne Cymru.

Mae rhai o'r pethau sydd gennym ar y gweill yn cynnwys...

- Cynnal adolygiad o holl brosiectau a blaenoriaethau'r Gwasanaethau i ddarparu'r rhain yn ôl pwysigrwydd ac effaith yn erbyn ein huchelgeisiau gwella cyfansymiol
- Adolygu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynhwysedd i ddarparu ar gynlluniau hyfforddi gweithredol i sicrhau bydd cymhwysterau yn cael ei gynnal wrth i ni adfer ar ôl pandemig Covid-19
- Annog ein staff a leolwyd yn y swyddfa i weithio'n fwy hyblyg, gan gydbwysu anghenion personol unigol a gofynion Gwasanaeth mewn modd priodol

Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu'n effeithiol y rhai hynny sy'n dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i Safonau'r Gymraeg 2015, y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cydymffurfio hwn ar ein gwefan a rhoddir manylion am ba wasanaethau y gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr er mwyn gwella safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg.

Lleisiwch eich barn

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd ystyrlon o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth. Er mwyn gwneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

Yn enwedig, croesawn eich sylwadau a'ch cwestiynau/neu'ch cwestiynau am ein hamcanion arfaethedig [Lleisiwch Eich Barn 2021](#)

Fersiynau amgen

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat amgen megis hawdd ei ddeall, print mawr, Braille neu ar ffurf awdio, cysylltwch â ni.



Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX



Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk



Cysylltwch â ni

www.decymru-tan.gov.uk/cysylltu-a-ni



Galwch ni

01443 232000



@TanDeCymru



@TanDeCymru



@sw_fire_and_rescue

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk